www.food.gov.uk

www.eatwell.gov.uk

Clicia ar 'Cymraeg'

FOOD STANDARDS AGENCY
WALES
ASIANTAETH SAFONAU BWYD CYMRU

At: Pobl â diddordeb

Dyddiad: 14 Hydref 2009 Cyfeirnod: DPPW/09/135

Annwyl Syr / Fadam,

Adolygu'r Nodyn Cyfarwyddyd ar gyfer Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2007

Mae bron i ddwy flynedd wedi mynd heibio ers i Reoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2007[1] ddod i rym, a chan fod y ddeddfwriaeth hon wedi'i diwygio'n ddiweddar gan Reoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) (Diwygio) 2009[2], dyma gyfle perffaith i adolygu'r Nodyn Cyfarwyddyd ar gyfer y ddeddfwriaeth wreiddiol[3].

Mae'r Nodyn Cyfarwyddyd yn cynnig cymorth anstatudol sy'n helpu i ddeall y ddeddfwriaeth, a fwriedir ar gyfer cynhyrchwyr a swyddogion gorfodi. Er mwyn hwyluso'r broses adolygu hon, a sicrhau ei bod yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n bwysig i randdeiliaid, byddwn yn croesawu eich awgrymiadau ar gyfer diwygiadau neu esboniadau pellach, neu bynciau ychwanegol yr hoffech eu gweld yn y nodiadau canllaw erbyn **Dydd Gwener 18 Rhagfyr.**

Bydd unrhyw awgrymiadau a gyflwynir yn cael eu hystyried i'w hymgorffori yn y Nodyn Cyfarwyddyd diwygiedig, a fydd yn cael ei gylchredeg at ddibenion ymgynghori yn y Flwyddyn Newydd.

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

POSITIVE ABOUT DISABLED PEOPLE · GADARN O BLAID · POBL ANABL

Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Tŷ Southgate, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW
Food Standards Agency, 11th Floor, Southgate House, Wood Street, Cardiff CF10 1EW
Ffôn / Tel: +44 (0)29 2067 8957 Ffacs / Fax: +44 (0)29 2067 8919
E-bost / E-mail: Rob.Wilkins@foodstandards.gsi.gov.uk

Os hoffech drafod unrhyw beth sy'n cael ei grybwyll yn y llythyr hwn, cysylltwch â mi drwy e-bostio Rob.Wilkins@foodstandards.gsi.gov.uk. Bydd canllawiau tebyg yn gymwys yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Yn gywir

Rob Wilkins
Pennaeth y Tîm Gorfodi

Troednodiadau

1. Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2007, Offeryn Statudol Rhif 3165 (W.276) (http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2007/wsi_20073165_en_1)
2. Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) (Diwygio) 2009, Offeryn Statudol Rhif 1509 (W.158) (http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2004/wsi_20041509_mi.pdf)
3. Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2007; Canllawiau i'r Ddeddfwriaeth (http://www.food.gov.uk/foodindustry/guidancenotes/foodguid/waterguidance)